

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod : | 14 Chwefror 2023 |
| Aelod Cabinet : | Y Cyng. Dyfrig Siencyn |
| Swyddog Cyswilt : | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |
| Adran / Gwasanaeth : | Tîm Arweinyddiaeth |
| Teitl yr Eitem | Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 |
| 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR | |
| 1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (y Cynllun) i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 2ail o Fawrth 2023. | |
| 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD | |
| 2.1 Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys y Cynllun a'i fod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod er argymhell bod y Cyngor Llawn yn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 2ail o Fawrth 2023. | |
| 3. CYFLWYNIAD | |
| 3.1 Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yw ein datganiad cyhoeddus ni fel Cyngor o'r hyn y bwriadwn ei gyflawni dros bobl Gwynedd. Mae'n cyfleu ein blaenoriaethau a'n huchelgais ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ynghyd a'r prosiectau y byddwn yn eu cyflawni. | |
| 3.2 Dros y misoedd diwethaf mae llawer o waith wedi'i wneud er mwyn adnabod meysydd y dylid eu blaenoriaethu o ystyried yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Bydd hyn yn gosod cyfeiriad i waith y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023-28. Fel rhan o'r broses, ystyriwyd sawl darn o waith / gwybodaeth, gan gynnwys y prosiectau oedd yn y Cynllun presennol 2018-23, adborth o waith ymgysylltu Fframwaith Adfywio 'Ardal Ni', a'r Aseidiadau Llesiant gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. | |
| 3.3 Fel rhan o'r broses o lunio'r Cynllun, cynhaliwyd dau sesiwn gweithdy ar gyfer yr holl Aelodau Etholedig yn ystod mis Rhagfyr 2022. Rhoddwyd cyfle iddynt amlygu unrhyw faterion oedd angen sylw ar lefel sirol ynghyd â'r ardaloedd y maent yn eu cynrychioli. | |
| 3.4 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 8fed o Ragfyr hyd at 3ydd Ionawr i gyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a rhoi'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy | |

gwblhau holiadur byr ar-lein ar www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynggori <<http://www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynggori>>. Roedd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol. Derbyniwyd 643 o ymatebion i'r holiadur.


- 3.5 Yn gyffredinol roedd cytundeb i'r blaenoriaethau drafft ynghyd â chroeso i'r cyfle i fwydo i mewn i'r broses cyn cyflwyno'r Cynllun yn ffurfiol i'r Cabinet a chyfarfod y Cyngor Llawn. Un pwynt a godwyd yn yr ymgynghoriad oedd yr angen i ystyried cynnwys prosiect yn ymwneud hefo darparu cyfleoedd chwarae/hamdden i blant a phobl ifanc. O ganlyniad mae prosiect ychwanegol wedi ei gynnwys 'Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir'.
- 3.6 Nodir hefyd fod addasiadau wedi eu gwneud i brosiectau ym Maes Blaenoriaeth 4 o'i gymharu â'r hyn yr ymgynghorwyd ar yn ôl yn yr Hydref. Mae'r prosiectau oedd yn y cynllun blaenorol (Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol ac Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal) wedi eu hail-becynnu o fewn 3 prosiect newydd - Cefnogaeth Ataliol yn Lleol, Byw'n Annibynnol a Gofal Arbenigol o Ansawdd. Y gobaith ydy bod y prosiectau newydd yn adlewyrchu taith unigolyn trwy'r gwasanaethau ac yn fwy dealladwy i'r llysgwr.
- 3.7 Mae Cynllun y Cyngor yn seiliedig ar y deunyddiau hyn a cheir copi drafft yn **Atodiad 1**. Mae'n cynnwys y **penawdau a meysydd blaenoriaeth** ar gyfer 2023-28 (rhain yw ein hamcanion llesiant i bwrpas gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) a'r **uchelgeisiau** ar gyfer y meysydd hynny. Yn ogystal, ceir disgrifiad cryno ar gyfer pob **prosiect** y byddwn yn ei weithredu gan amlinellu pam ein bod yn rhoi sylw iddo a'r hyn y byddwn yn ei wneud dros gyfnod y cynllun er mwyn ymateb.
- 3.8 Dylid nodi mae fersiwn drafft ar ffurf naratif yn unig a gyflwynir i'r cyfarfod hwn. Y bwriad ar gyfer y cynllun newydd yw y bydd yn ddogfen gryno fydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y meysydd blaenoriaeth, uchelgeisiau a'r prosiectau blaenoriaeth. Ceir esiampl o ddiwyg drafft ar gyfer cynllun 2023-28 yn **Atodiad 2**.
- 3.9 Rydym yn cyflwyno Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn i'r Cabinet bwysu a mesur os ydi'r prosiectau yn dderbyniol o safbwynt yr effaith a gânt ar bobl sydd ag un neu fwy o'r nodweddion sydd wedi eu gwarchod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Asesiad i'w weld yn **Atodiad 3**.

4. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r Cynllun.

4.2. Adnoddau

Mae angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r ymrwymadau a nodir ar gyfer nifer o'r prosiectau o fewn y Cynllun. Heb yr adnodd mae'n bosibl na fydd modd i ni gyflawni'r hyn a nodir. Ar hyn o bryd cynigir bod yr holl



brosiectau yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r Cynllun, yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i'w hariannu, wedi iddynt ystyried pob achos busnes unigol. Disgwylir i hyn ddigwydd cyn gynted ag y bo'n bosibl.

4.4 Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar flaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 rhwng 8fed Rhagfyr 2022 a 3ydd Ionawr 2023. Darparwyd cyfleoedd priodol i unigolion a grwpiau diddordeb gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur oedd ar gael ar wefan y Cyngor neu gopiâu papur oedd ar gael yn Siopau Gwynedd a Llyfrgelloedd y sir. Yn ogystal, cysylltwyd gyda mudiadau trydydd sector i'w hannog i gymryd rhan.

Derbyniwyd 643 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac yn gyffredinol roedd cytundeb i'r blaenoriaethau a'r prosiectau drafft yr ydym wedi eu hadnabod. Ceir crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn **Atodiad 5**.

Mae pwyntiau 3.4, 3.5 a 3.6 yn yr adroddiad uchod yn amlygu'r addasiadau sydd wedi eu gwneud i'r cynllun drafft yn dilyn yr ymgynghoriad. Bydd angen ystyried os oes unrhyw faterion eraill wedi codi yn yr ymgynghoriad sydd angen rhoi sylw iddynt.

4.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant.

Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 rydym hefyd wedi adolygu ein hamcanion llesiant. Wrth adolygu ein hamcanion llesiant, rydym wedi ystyried nifer o ffynonellau tystiolaeth gan gynnwys gwybodaeth o sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd gydag Aelodau Etholedig, ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer Cynllun y Cyngor a chanlyniadau Asesiadau Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a gyhoeddwyd yn 2022.

Bydd ein hamcanion llesiant yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol ac yn cynnwys y camau ymarferol neu brosiectau y byddwn yn eu gweithredu er mwyn cyfrannu tuag at yr amcan. Y bwriad fydd i'w hadolygu'n rheolaidd.

Fel rhan o'r broses rydym hefyd wedi adolygu ein Datganiad Llesiant (**Atodiad 4**).

4.6 Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn **Atodiad 2**.

Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd cyfrifoldeb ar Arweinyddion Prosiect i gynnal Aseiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1. O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei gyflwyno i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar y 2il o Fawrth 2023.
- 5.2. Ar ôl i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Cynllun, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r modd gorau o gyfathrebu prif negeseuon y cynllun gyda'r cyhoedd, a bydd cyfle i Aelodau Cabinet roi eu barn ar hynny yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun.

6. Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Pennaeth Cyllid

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol, sy'n gosod allan yr hyn y mae Cyngor Gwynedd am anelu i'w wneud dros y bum mlynedd nesaf. Gallaf gadarnhau fod cronfeydd penodol, cyfyngedig, yn eu lle i ariannu blaenoriaethau'r Cynllun. Mae cydnabyddiaeth yn yr adroddiad y bydd gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt, a felly rwyf yn cytuno gyda'r hyn a nodir ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad, fod angen ystyried pob achos busnes yn unigol cyn fod cytundeb i'w hariannu.

Mae priodoldeb ariannol yn golygu byddwn yn parhau i sicrhau bod ffynhonnell ariannu wedi cael ei adnabod ar gyfer unrhyw ymrwymiad i wario.

ii. Y Swyddog Monitro:

Mae mabwysiadu Cynllun y Cyngor yn un o brif swyddogaethau y Cyngor Llawn ac mae argymhelliad y Cabinet yn greiddiol i'r broses. Cydnabyddir yn briodol yn y adroddiad fod y cyd berthynas gyda gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymhlyg yn y cynllun. Mae'n allweddol fod y Cabinet wrth ffurfio yr argymhelliad yn dal sylw penodol i'r wybodaeth sydd yn deillio o'r broses ymgynghori a'r Aseidiadau Ardrawiad sydd wedi eu hatodi.

Atodiadau:

- Atodiad 1 – Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (Drafft)
- Atodiad 2 – Copi drafft o'r diwyg ar gyfer y Cynllun newydd
- Atodiad 3 - Aseiad Effaith Cydraddoldeb
- Atodiad 4 – Datganiad Llesiant 2023/24
- Atodiad 5 – Crynodeb o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus